# <u>Cyngor Cymuned Llanystumdwy</u>

**Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar – nos Iau, 7fed o Dachwedd, 2019 yn Festri Capel Pencaenewydd.**

***<u>Yn bresennol</u>***: Y Cynghorwyr Anwen Jones (Cadeirydd), Aled Davies (Is-gadeirydd), Aled Lloyd Evans, Margaret Griffith, Gareth O. Davies, Ceri Jones, Sian Angharad Parry, Thomas Prys Jones, Angela Williams, a'r Clerc.

***<u>1.Ymddiheuriadau</u>***.
Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr William Ifor Hughes, Trefor Wyn Jones, Darren Morley, Tegid Jones, Naomi Jones, a Sion Aled Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 3ydd o Hydref 2019.

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Hydref 2019 gan y Cadeirydd.

4. Materion yn codi o'r cofnodion.

   Ar y rhaglen.

5. **<u>Datgan buddiant personol</u>** – neb.

6. Cyngor Gwynedd.

7. **<u>Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned – dim.</u>**

8. **<u>Hafan y Môr</u>-** cyhoeddusrwydd ac ymgynghori cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio.
"*Dymchwel 56 o 'randai', creu 165 safle ar gyfer lleoli carafannau statig llety tîm, caffi traeth gan gynnwys teras a man chwarae, amddiffynfeydd arfordirol newydd, adlinio Llwybr Arfordir Cymru yn ogystal a thirlunio cysylltiedig, draenio, gwaith mynediad a seilwaith.*" Mae'r manylion ar www.hafanymorconsultation.co.uk , ac roeddent angen sylwadau erbyn 26.11.2019. **<u>Trafodwyd y mater ar y noson, ac fe basiwyd i adael y mater ar y bwrdd, ac nad oedd sylwadau ar y funud – y Clerc i anfon llythyr i'w hysbysu.</u>**

9. Biniau halen o fewn y gymuned – mae 5 ohonynt:-
- ger Gwyddfor, Chwilog,
- Pentyrch Uchaf, Llangybi,
- rhwng y Bont a Chapel y Beirdd, Bryn Beddau, Rhoslan a
- Tan yr Erw, Lon Gefn Llanystumdwy.

**<u>Eglurwyd fod angen cadw golwg ar faint o halen sydd ynddynt yn gyson yn ystod y gaeaf, a gadael i'r Clerc wybod os oes angen ei llenwi. Roedd pob un yn llawn.</u>**

10. **<u>Bwrdd Iechyd</u>** – derbyniwyd ebost gan Mabon ap Gwynfor, yn dweud fod y Bwrdd Iechyd yn gobeithio arbed £25,000.00 y flwyddyn trwy newid 'rota' nyrsus a'i gorfodi i weithio 'shifft' yn ychwanegol y mis yn ddi-dâl. Roeddent hefyd wedi talu

£2,000.00 y diwrnod i ymgynghorydd i'w cynghori ar doriadau ariannol. Nid oedd angen trafod hyn oherwydd fod y sefyllfa wedi cael ei ddatrys erbyn y cyfarfod.

11. **Cynnal a chryfhau Bioamrywiaeth o fewn y gymuned**
Derbyniwyd ebost gan Un Llais Cymru 06.09.19, yn dweud ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Cynghorau Cymuned & Thref) o dan Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016, Adran 6, i baratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu'r hyn y bwriadant ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i Gynnal a Chryfhau Bioamrywiaeth o fewn eu meysydd gwaith presennol.
Dylid cyhoeddi adroddiad cyn diwedd 2019, a phob 3 mlynedd wedyn, yn dangos beth mae'r awdurdod cyhoeddus wedi ei wneud i gydymffurfio â'r dyletswydd i gynnal a chryfhau bioamrywiaeth o fewn eu meysydd gwaith presennol.
Derbyniwyd bwletin newyddion arall gan Un Llais Cymru wedyn ar 19.09.19, yn dweud
"rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i Un Llais Cymru y cyhoeddir Canllawiau maes yn y dyfodol agos". Y Clerc wedi derbyn ambell ddogfen, ond dim canllawiau penodol – **Roedd y Clerc wedi cysylltu hefo Un Llais Cymru dros y ffon cyn y cyfarfod, a cadarnhawyd nad oedd y wybodaeth wedi cyrraedd eto gan Llywodraeth Cymru, felly penderfynu aros i gael y canllawiau gyntaf.**

**12. Deall Lleoedd yng Nghymru – 'www.understandingwelshplaces.wales'** gwefan ddwyieithog sy'n cyflwyno data am fwy na 300 o drefi a chymunedau yng Nghymru ar ffurf sy'n hawdd i'w ddefnyddio. Pwrpas yr adnodd hwn yw archwilio data am leoedd unigol, gall pobl gymharu eu tref gyda lleoedd eraill, a dod i wybod mwy am berthynas eu tref gyda chymunedau cyfagos ac eraill ar draws Cymru. Cafodd y prosiect ei arianu gan Ymddiriedolaeth Carnegie a Llywodraeth Cymru.
Mae'n cynnwys data am swyddi, ysgolion, siopau a llawer mwy, y cyfan ar lefel tref.
*Mae'r mater isod wedi dod i'r amlwg, sef, "fod y llunwyr wedi anwybyddu Yr Wyddor Gymraeg yn gyfangwbl, ac wedi trin y Gymraeg fel pe bai ei strwythur yr un fath a'r Saesneg. Dim ond Yr Wyddor Saesneg sydd yn cael ei harddangos ar y wefan ac nid yw neb fod llythrennau gwahanol yn ein hiaith, - pe byddai Chwilog ar y rhestr byddai o dan C yn hytrach na Ch, - mae pob Llan o dan L yn hytrach nag LL". **Trafodwyd y mater, a gofynwyd i'r Clerc ddwyn sylw i'r mater i Gomisiwn yr Iaith Gymraeg**.*

13. **Materion yn y gymuned**.
**Llanarmon**
**Llanystumdwy**
**Rhoslan /Ynys**

**Chwilog**

**14. Llwybr troed o Chwilog i Afonwen**
Clerc wedi anfon y llythyr at Mr Dylan Jones, Rheolwr Uned Traffig, Cyngor Gwynedd, yn datgan ein pryderon am y lon fel ag y mae ar hyn o bryd.
Y Cynghorydd Aled Evans a'r Cadeirydd wedi trosglwyddo'r ddeiseb i'r Aelod Cabinet, Mr Gareth Griffith, ac roedd sylw wedi cael ei wneud yn y wasg, teledu a'r radio gan y Cadeirydd Anwen Jones a'r Cyngorydd Aled Evans. **Derbyniwyd cyngor i ni gysylltu ymhellach hefo'n Aelod Cynulliad gan mai gwneud cais am arian i'r cynulliad fydd raid, i geisio denu arian o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr at Aelod y Cynulliad, ac aelodau'r rhanbarth.**

**15. Glanywern, Chwilog** – cwynion wedi cael ei derbyn yn dweud fod ceir yn dal i barcio ar y llinnellau melyn weithiau a bod cerbydau yn cael trafferth pasio – **Y Clerc wedi pasio'r mater i sylw Cyngor Gwynedd gan anfon lluniau, ac awgrymu fod angen i swyddog fynd yno i roi dirwy arnynt. Derbyn.**

**16. Maes chwarae Maes Myrddin, Chwilog** – derbyniwyd llythyr gan Reolwr Prosiect Priffyrdd Cyngor Gwynedd, yn dweud oherwydd sefyllfa y toriadau ariannol, ei bod eisiau i ni ystyried y canlynol:-

- adnabod os oes gennym ddiddordeb ac yn fodlon ystyried cymryd cyfrifoldeb mewn egwyddor am y maes chwarae uchod.
- Os oes gennym unrhyw wybodaeth leol allai awgrymu y buasai eraill fel grwpiau cymunedol cofrestredig yn barod i ystyried cymryd cyfrifoldeb am reoli'r maes chwarae yn y gymuned.
- A oes diddordeb gan ein cymuned ddatblygu ffordd o weithio gyda'n gilydd i ddatblygu ffordd ymlaen a dod ynghyd ag opsiynau unai i drosglwyddo neu weithio mewn partneriaeth. **Maent angen ymateb cyn y 31ain o Rhagfyr 2019.**

**Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr yn nol i'r Rheolwr Prosiect, i ofyn tybed a oedd bygythiad i golli'r parc yn Chwilog. Hefyd, angen pwysleisio faint o bwysig oedd cadw'r adnodd yn y pentref, oherwydd fod tai newydd yn mynd i gael ei adeiladu yno'n fuan, gyda'r posiblrwydd o fwy o blant yn y pentref. Angen hefyd holi mwy am y bartneriaeth oedd yn pwynt 3 (gweler uchod).**

**Pencaenewydd/Sardis**

**Llangybi**

17. **Cae chwarae, Llangybi** – Y Clerc wedi trafod y matiau du hefo'r contractwr oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r cae chwarae eleni, ac fe wnaeth cadarnhau y byddai wedi ei chwistrelu hefo peiriant dwr i'w glanhau **ar fyrder. Derbyniwyd gwybodaeth ar y noson nad oedd y matiau wedi cael ei chwistrellu, felly roedd y Clerc am wneud mwy o ymholiadau ar frys.**

**Materion Ariannol**

18. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Hefyd cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud, ac y rhagwelir sydd angen ei wneud, drwy ffurf rhestr 'excel' i fyny at 06.11.19. Rhannwyd ffurflenni 'excel' cyllideb i'r Cynghorwyr drwy e-bost cyn y cyfarfod, er mwyn iddynt gael edrychiad manwl arnynt. Fe dderbyniwyd y wybodaeth, ac fe wnaeth y Cadeirydd lofnodi'r ddogfen, fydd rwan yn cael ei diweddaru'n fisol.

- Elusen William Ellis – angen i'r Clerc rhoi hysbyseb yn Y Ffynnon ac o flaen y Neuadd yn Llanystumdwy fis Tachwedd 2019, hefo dyddiad cau 30.11.2019.
- Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor - angen ei roi yn Y Ffynnon, rhifyn mis Tachwedd a Rhagfyr gyda dyddiad cau 15fed Ionawr 2020.

19. **Glanhau <u>Llochesi bws</u>** (9 i gyd)– trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd gan Criccieth Cleaning Ltd., a Spick'N'Span yn ystod y mis.
Penderfynwyd derbyn pris Criccieth Cleaning Ltd. , gan ofyn iddynt wneud 'glanhâd trylwyr' tro cyntaf (oherwydd nad oeddent wedi cael ei glanhau eleni), yr un cyntaf i gael ei wneud fis Tachwedd 2019. Y lleill fel a ganlyn:-
Chwefror 2020
Mehefin 2020
Hydref 2020
Chwefror 2021

20. **<u>Hysbysfwrdd</u>** – trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd yn ystod y mis i wneud hysbysfwrdd o goedyn caled yn y mannau isod:-

- Capel Pencaenewydd
- Neuadd Chwilog
- Llanystumdwy
- Rhoslan

Penderfynwyd derbyn y pris a dderbyniwyd gan Alun Owen, Pandy, Chwilog.

21. **<u>Eisteddfod Genedlaethol 2021-</u>**trafodwyd y mater, ond penderfynwyd rhoi y mater ar y rhaglen nesaf, rhag ofn y bydd mwy o wybodaeth ar gael erbyn hynny.

22. **<u>Archwiliad Ariannol Allannol</u>** gan gwmni BDO – y Clerc wedi derbyn cadarnhad fod yr archwiliad allannol wedi cael ei gwblhau a'i gymeradwyo ar 26.10.19. Roedd y ffurflen flynyddol gan y Clerc yn y cyfarfod, ac fe benderfynwyd ei chymeradwy a'i derbyn gan y Cyngor. Yna bydd y ffurflen flynyddol a'r hysbysiadau yn cael ei arddangos yn y mannau priodol yn y wardiau, ac ar y wefan.

23. **<u>Cylch gorchwyl</u>** – oherwydd fod gan y Cyngor bwyllgorau eraill dylid sefydlu cylch gorchwyl yn cynnwys unrhyw ddirprwyo awdurdod ar gyfer unrhyw bwyllgor arall (cyn gynted â phosibl neu o leiaf cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol). Gellir cael arweiniad gan Un Llais Cymru. Y Clerc am wneud ymholiadau.

24. Anfonebau angen eu talu:- drwy BACS.

| **Enw** | **Rheswm** | **Pris £** | **TAW £** | **Cyfanswm £** | **Taliad BACS** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd | Archwilio Mewnol (007950C0013953J) | 135.00 | 27.00 | 162.00 | 162.00 |

Cyflog mis Hydref 2019 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM:-

| **Enw/Rheswm** | Swm<br><br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad siec rhif:- |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Hydref 2019<br>35 awr x £10.37 = | 362.95-llai treth £72.60 | **290.35** | 101139 |
| Cyllid a Thollau EM-<br>Treth ar enillion y Clerc Hydref 2019 | 362.95 x 20% = llai treth £72.60 | **72.60** | 101140 |
| Costau'r Clerc Hydref 2019<br>Cost postio i'r BDO<br>Stamp i anfon rhaglen i'r Cynghorydd W.I.Hughes | 16.00<br>2.26<br>0.61 | **18.87** | 101141 |

**25. Polisi Rheolau Ariannol arwahan i'r Rheolau Sefydlog.**

Yn dilyn adroddiad gan yr archwilio allannol, fe ofynwyd i'r cyngor fabwysiadu polisi ar gyfer yr uchod. Mae aelodau o'r Pwyllgor Polisi wedi creu dogfen bwrpasol, ac mae'r Clerc wedi ei anfon drwy ebost at weddill aelodau'r Pwyllgor Polisi a Busnes i weld os oes angen ychwanegu neu newid rhywbeth. **Fe drafodwyd y mater ar y noson, ac fe benderfynwyd mabwysiadu'r polisi, ei arwyddo gan y Cadeirydd, ac i'r Clerc drefnu roi y polisi ar ein gwefan**. Diolchwyd i'r Cynghorydd Margaret Griffith am yr holl waith a wnaeth.

*It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk*